WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2017

Cyfeirnod dogfen: 291A2017

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Gwilym Bury a Non Jenkins o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu cadarn ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau ond mae cysondeb asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn amrywio ac nid oes tryloywder wrth gofnodi arbedion yn sgil gwneud newidiadau i wasanaethau.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu cadarn ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau ond mae cysondeb asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn amrywio ac nid oes tryloywder wrth gofnodi arbedion yn sgil gwneud newidiadau i wasanaethau 6

- Mae gan y Cyngor fframwaith strategol clir ar gyfer cynllunio a gweithredu newidiadau i wasanaethau 6
- Mae dull gweithredu 'Tîm Conwy' y Cyngor yn nodi dull clir a ddeellir yn dda o ran trefniadau llywodraethu newidiadau i wasanaethau 7
- Mae cynghorwyr yn cymryd camau cadarn i herio achosion busnes ac arfarniadau o opsiynau ar gyfer newidiadau i wasanaethau 8
- Mae dull Conwy o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gynhwysfawr ond mae cysondeb asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn amrywio 9
- Mae trefniadau monitro'r Cyngor ar gyfer asesu effaith newidiadau i wasanaethau yn effeithiol ond nid oes tryloywder wrth gofnodi arbedion yn sgil gwneud newidiadau i wasanaethau 11
- Mae'r Cyngor yn cymryd camau rhagweithiol i adolygu a gwella effeithiolrwydd ei drefniadau gwneud penderfyniadau 12

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Mae llywodraethu'n ymwneud â sut mae cyrff cyhoeddus yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, ar gyfer y bobl iawn, mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliannau a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli cyrff cyhoeddus y maent yn atebol iddynt, yn ymgysylltu â nhw a, lle y bo'n briodol, yn arwain eu cymunedau.[1]

2 Mae llywodraethu da yn hanfodol er mwyn gwarchod arian cyhoeddus yn effeithiol a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon yr ymddiriedir ynddynt yn barhaus. Mae'r hinsawdd ariannol bresennol a'r setliadau is i lywodraeth leol yn ogystal â'r galw cynyddol am rai gwasanaethau yn golygu ei bod yn debygol y bydd angen i bob cyngor barhau i wneud penderfyniadau ynghylch cyfluniad gwasanaethau a'r modd y cânt eu darparu yn y dyfodol. Mae'n briodol bod cyrff cyhoeddus yn ceisio gwella'n barhaus. Gwneir newidiadau cynyddrannol, bach i'r modd y darperir gwasanaethau ar lefel rheolwyr a lefel weithredol fel rhan o'r broses arferol o wneud newidiadau gweithredol. Fodd bynnag, mae llywodraethu da wedi'i ategu gan waith cynllunio effeithiol a phrosesau trylwyr yn hanfodol wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau. Yn aml mae'r fath benderfyniadau yn rhai dadleuol ac yn ennyn cryn dipyn o ddiddordeb lleol a gallant gael effeithiau sylweddol ar yr unigolion a'r grwpiau y maent yn effeithio arnynt.

3 Ers mis Ebrill 2016, bu'n ofynnol i gynghorau gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Chanllawiau Statudol cysylltiedig. Mae'r Canllawiau Statudol yn nodi'r canlynol: 'Gyda'i gilydd, bwriedir i'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a ddarperir gan y Ddeddf gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'.[2] Mae'r ddeddfwriaeth hon yn pwysleisio pwysigrwydd llywodraethu effeithiol i gyflawni nodau llesiant.

4 Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) ar gyfer penderfynu ar newidiadau i wasanaethau. Rydym yn diffinio newid i wasanaethau fel unrhyw newid sylweddol i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a/neu unrhyw newid sylweddol o ran profiadau defnyddwyr gwasanaethau allanol o wasanaethau. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, newidiadau i'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu, lefel y gwasanaeth a ddarperir, argaeledd y gwasanaeth neu gost y gwasanaeth.

[1] CIPFA/SOLACE, **Delivering Good Governance in Local Government: Framework 2007**

[2] Llywodraeth Cymru: **Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol, Canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

5 Gan gymryd fframwaith diwygiedig Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer 'Delivering good governance in local government' fel safon briodol, mae'r adolygiad hwn yn darparu llinell sylfaen i'r Cyngor gynllunio rhagor o welliannau. Yn yr asesiad hwn, a gynhaliwyd rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2016, er mwyn llywio ein hasesiad o drefniadau cyffredinol y Cyngor ar gyfer datblygu newidiadau i wasanaethau a phenderfynu arnynt, ystyriwyd agweddau ar y trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas â nifer o gynigion ar gyfer gwneud newidiadau sylweddol i wasanaethau. Ymhlith y newidiadau i wasanaethau a ystyriwyd roedd:

- newidiadau i wasanaethau casglu gwastraff gweddilliol a gwastraff y gellir ei ailgylchu
- adolygu taliadau meysydd parcio
- moderneiddio llyfrgelloedd
- Arfarniad o Opsiynau Conwy ar gyfer y gwasanaeth digartrefedd

6 Nid ystyriwyd pob un o'r penderfyniadau unigol ynghylch newid gwasanaethau yn fanwl, ond yn hytrach eu defnyddio fel enghreifftiau i gyfeirio atynt a llywio'r ffordd y mae'r Cyngor yn mynd ati i wneud penderfyniadau ynghylch newidiadau i wasanaethau.

7 Yn yr adolygiad hwn daethom i'r casgliad **bod gan y Cyngor drefniadau llywodraethu cadarn ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau ond mae cysondeb asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn amrywio ac nid oes tryloywder wrth gofnodi arbedion yn sgil gwneud newidiadau i wasanaethau**.

# Cynnig ar gyfer gwella

### Arddangosyn 1: cynnig ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn pennu'r maes ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hadolygiad.

| Cynnig neu gynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Gellid atgyfnerthu trefniadau llywodraethu'r Cyngor drwy sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cynnal yn gyson. |

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu cadarn ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau ond mae cysondeb asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn amrywio ac nid oes tryloywder wrth gofnodi arbedion yn sgil gwneud newidiadau i wasanaethau

### Mae gan y Cyngor fframwaith strategol clir ar gyfer cynllunio a gweithredu newidiadau i wasanaethau

8 Yn ôl Fframwaith Rheoli Prosiect y Cyngor ar gyfer newidiadau sylweddol i wasanaethau mae'n rhaid i gynigion ar gyfer gwneud newidiadau sylweddol i wasanaethau yng Nghonwy ddangos cysylltiad nid yn unig â chanlyniadau dinasyddion (amcanion gwella) y Cyngor ond â chynlluniau cysylltiedig eraill fel Cynllun Cydraddoldeb y Cyngor. Mae'r newidiadau i wasanaethau y gwnaethom edrych arnynt yn dangos cysylltiadau â sawl amcan gwella ac yn nodi sut y byddai llwyddiant yn cael ei fonitro a'i farnu. Amcanion ar gyfer gwella'r Cyngor yw:

- mae pobl yng Nghonwy'n derbyn addysg ac mae ganddynt sgiliau
- mae pobl Conwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel
- mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn tai diogel ac addas
- mae pobl yng Nghonwy'n iach ac yn annibynnol
- mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn Sir sydd ag economi ffyniannus
- mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn amgylchedd cynaliadwy
- mae pobl yng Nghonwy'n byw mewn Sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r Gymraeg yn ffynnu
- mae Pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais

9 Mae'r Cyngor ar gam cynnar o hyd o ran diwygio ei drefniadau llywodraethu er mwyn mynd i'r afael â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fel rhan o'r gwaith ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r Cyngor wedi lansio 'Sgwrs y Sir', sef ymgynghoriad ledled y sir yn targedu'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn sir Conwy er mwyn galluogi'r cyhoedd i leisio barn ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu gan amrywiaeth o sefydliadau yn y sector cyhoeddus. Ar-lein y cynhelir yr arolwg yn bennaf ond gellir cymryd rhan mewn ffyrdd eraill mwy traddodiadol hefyd. Mae'r Cyngor hefyd yn anelu at gysoni ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2017 er mwyn diwallu anghenion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ddiogelu a gwella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ei breswylwyr mewn ffordd gynaliadwy.

10 Mae ‘Sgwrs y Sir’ wrth wraidd dull gweithredu newydd y Cyngor o fynd i’r afael ag egwyddorion cynaliadwy a chynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith o ddatblygu ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol er mwyn gwneud newidiadau i wasanaethau. Caiff ‘Sgwrs y Sir’ ei rheoli gan y Cyngor, ond mae’n gweithredu ar ran grŵp o sefydliadau yn y sector cyhoeddus. Ymhlith y sefydliadau y disgwylir iddynt gael budd o’r adborth mae:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
- y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Llywodraeth Cymru

## Mae dull gweithredu ‘Tîm Conwy’ y Cyngor yn nodi dull clir a ddeellir yn dda o ran trefniadau llywodraethu newidiadau i wasanaethau

11 Mae gan arweinwyr gwleidyddol ac uwch swyddogion berchenogaeth a dealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau’r Cyngor, ac maent yn cydweithio’n dda. Mae’r lefel uchel o ymddiriedaeth a chydweithredu rhwng cynghorwyr a staff yn un o nodweddion amlwg y Cyngor. Mae gan uwch swyddogion y Cyngor weledigaeth glir o’r hyn maent yn ceisio ei gyflawni. Ym marn cynghorwyr a staff mae uwch reolwyr yn effeithiol iawn wrth hyrwyddo dull gweithredu ‘Tîm Conwy’. Mae dull gweithredu ‘Tîm Conwy’ yn creu’r amgylchedd ar gyfer diwylliant o fewn y Cyngor cyfan sy’n canolbwyntio ar weithgareddau craidd sydd angen eu gwella ac ymddengys fod trefniadau presennol yn gweithio’n dda wrth ystyried newidiadau i wasanaethau. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw ynglŷn â newidiadau i wasanaethau o’r farn bod dull gweithredu ‘Tîm Conwy’ yn parhau i greu ymdeimlad o falchder yng ngwaith y Cyngor, ynghyd â diwylliant cryf lle maent yn teimlo’n atebol am berfformiad gwasanaethau.

12 Mae Fframwaith Rheoli Prosiect y Cyngor ar gyfer newidiadau sylweddol i wasanaethau yn ddull gweithredu cynhwysfawr o ansawdd da a gyflwynwyd yn 2007, ac a ddiwygiwyd yn sylweddol yn 2013, o ganlyniad i'r hyn a ddysgwyd yn sgil cydweithredu â chyngor cyfagos ar wasanaethau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol nad oeddent yn cyflawni'r buddiannau roedd y Cyngor yn eu disgwyl. Dangosodd y newidiadau sylweddol i wasanaethau y gwnaethom edrych arnynt fel rhan o'r adolygiad hwn fod y trefniadau rheoli prosiect hyn wedi'u hymgorffori'n dda yn gyson.

13 Amlinellir rolau gwahanol y Swyddog Monitro, Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Phennaeth Gwasanaethau Adnoddau Dynol Corfforaethol yn y gwaith o wneud newidiadau sylweddol i wasanaethau yng Nghyfansoddiad y Cyngor, a ddiweddarwyd yn 2016 ac sy'n ystyried canllawiau perthnasol gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC). Fel rhan o'r hyfforddiant a gynigir i gynghorwyr newydd, eglurir y weithdrefn ddemocrataidd ar gyfer ymdrin â newidiadau sylweddol i wasanaethau, yn ogystal â rôl cynghorwyr wrth fonitro hynt prosiectau sylweddol.

## Mae cynghorwyr yn cymryd camau cadarn i herio achosion busnes ac arfarniadau o opsiynau ar gyfer newidiadau i wasanaethau

14 Roedd gan yr holl newidiadau i wasanaethau'r Cyngor y gwnaethom edrych arnynt, fel y newidiadau i wasanaethau casglu gwastraff gweddilliol, achosion busnes cynhwysfawr a oedd yn disgrifio'n fanwl yr holl opsiynau amgen a ystyriwyd ac yn egluro pam na chawsant eu hargymell yn lle'r cynnig a argymhellwyd o ran newid gwasanaeth. Ym mhob achos, roedd yr amrywiaeth o opsiynau amgen yn gynhwysfawr a gwnaeth swyddogion hefyd ystyried risgiau'r cynigion amgen, y costau a ragwelwyd, a goblygiadau eang o ran cynaliadwyedd.

15 Mae'r wybodaeth a roddir i gynghorwyr o ran cynigion i newid gwasanaethau yn gynhwysfawr. Er enghraifft, roedd gwybodaeth am y cynnig i newid y gwasanaeth casglu gwastraff gweddilliol yn gynhwysfawr ac arfarnwyd nifer o opsiynau gan alluogi cynghorwyr i wneud dewis clir a hyddysg. Lle caiff pryderon eu codi gan drigolion a rhanddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol, fel taliadau parcio, arweiniodd dull gweithredu 'Tîm Conwy', gyda'i bwyslais mawr ar gael consensws, at ragor o ymgynghori er mwyn ymdrin â'r pryderon hyn.

16 Er mwyn sicrhau bod penderfyniadau yn rhoi cyfrif am ystod eang o safbwyntiau gwleidyddol, mae cyfran uchel o waith pwyllgorau craffu'r Cyngor ar ffurf 'gwaith craffu cyn penderfynu' lle mae pwyllgorau yn ystyried materion cyn iddynt gyrraedd y Cabinet er mwyn i benderfyniadau gael eu gwneud. Mae'r adroddiadau ar newid gwasanaethau a gyflwynir i bwyllgorau craffu a'r Cabinet yn gyson gynhwysfawr. At hynny, mae ymgysylltiad helaeth cynghorwyr drwy, er enghraifft, eu haelodaeth o fyrddau prosiect a rhaglenni a'u hymwneud â gweithdai cyllideb yn gyffredinol yn sicrhau bod yr argymhellion a geir mewn adroddiadau pwyllgor yn debygol o ennyn cryn gefnogaeth.

17 Mae pwyllgorau craffu yn cynnig her gadarn bellach o ran newidiadau i wasanaethau. O blith y newidiadau i wasanaethau y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom enghreifftiau lle mae pwyllgorau craffu wedi argymell addasu'r argymhellion a geir mewn adroddiadau newid gwasanaethau, fel meysydd parcio, ac, mewn rhai achosion, maent wedi gofyn i adroddiadau gael eu hail-lunio er mwyn eu gwneud yn fwy eglur. O fewn y newidiadau i wasanaethau y gwnaethom edrych arnynt, er enghraifft meysydd parcio a gwastraff gweddilliol, ymatebodd y Cabinet yn gadarnhaol i argymhellion pwyllgorau craffu.

18 Caiff holl benderfyniadau'r Cyngor o ran gwneud newidiadau sylweddol i wasanaethau eu hadolygu gan y pwyllgor craffu perthnasol ac yna'r Cabinet sydd, fel y nodir yn y cyfansoddiad, yn gwneud penderfyniadau terfynol ynghylch newid gwasanaethau. Weithiau, bydd y Cabinet yn trafod newidiadau mwy dadleuol i wasanaethau, fel ar wastraff gweddilliol, lle mae mwy na 50% o'r holl gynghorwyr yn bresennol a cheir sawl cyfraniad gan unigolion nad ydynt yn perthyn i'r Cabinet. Caiff pob penderfyniad ynghylch gwneud newidiadau i wasanaethau ei gofnodi'n llawn ac yn gywir mewn cofnodion ysgrifenedig ar wefan y Cyngor.

## Mae dull Conwy o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gynhwysfawr ond mae cysondeb asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn amrywio

19 Roedd gan bob cynllun busnes newid gwasanaeth y gwnaethom edrych arno gynllun ymgysylltu penodol, ac roedd ei hynt yn cael ei fonitro gan y grŵp swyddogion perthnasol wrth wneud y newid i'r gwasanaeth. Er enghraifft, yn 2016, y Cyngor hwn oedd y cyntaf yng Nghymru a Lloegr i dreialu casglu gwastraff gweddilliol bob pedair wythnos, ac mae canlyniadau cynnar yn awgrymu bod y Cyngor bellach yn cyflawni un o'r cyfraddau ailgylchu uchaf yng Nghymru a'r DU. Bu rôl swyddogion a chynghorwyr allweddol o ran gwrando ar drigolion a rhanddeiliaid, ac addasu'r cynllun peilot i fynd i'r afael â'u pryderon, yn allweddol i'w gyflawni'n llwyddiannus.

20 Mae'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb y gwnaethom edrych arnynt ar gyfer yr adolygiad hwn yn amrywio o ran ansawdd. Wrth ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Conwy ar gyfer 2016-2020, ymgysylltodd y Cyngor â phobl â nodweddion gwarchodedig, ond yn y newidiadau i wasanaethau y gwnaethom edrych arnynt ni welsom unrhyw dystiolaeth o ymgysylltu lleol penodol ar bob cynnig. Mae Cynllun Cydraddoldeb y Cyngor yn nodi sut y dylid mynd ati i ymgysylltu. Wrth edrych ar nifer o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb y Cyngor ar gyfer newidiadau sylweddol i wasanaethau a gyflwynwyd i gynghorwyr, mae ansawdd y wybodaeth am y ffordd y bydd newidiadau i wasanaethau neu doriadau cyllidebol yn effeithio ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig yn amrywio.

21 Mewn rhai o'r newidiadau i wasanaethau y gwnaethom edrych arnynt, ni thybiwyd bod angen Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan y Cyngor, ond nid oedd bob amser yn glir sut y daeth i'r casgliad hwn. Ar adeg ein gwaith maes ar gyfer yr adolygiad hwn yn 2016, prin oedd yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd o ran cynigion i newid gwasanaethau a oedd ar gael i'r cyhoedd eu hystyried, gan fod adroddiadau pwyllgorau yn cyfeirio at ddolen ar 'fewnrwyd' y Cyngor ac nid ar ei wefan gyhoeddus. Mae'r Cyngor bellach wedi newid y drefn a chaiff pob Asesiad newydd o'r Effaith ar Gydraddoldeb ei roi ar wefan y Cyngor sydd ar gael i'r cyhoedd.

22 Cymerir safbwyntiau trigolion a rhanddeiliaid Conwy o ddifrif gan gynghorwyr ac uwch swyddogion yn y broses gwneud penderfyniadau a welsom ar gyfer cynigion i wneud newidiadau i wasanaethau. Yn arbennig, defnyddiodd Arolwg Ailgylchu Mwy Conwy o bob cartref nifer o ddulliau arloesol o gasglu barn pobl a chafwyd mwy nag 11,000 o ymatebion. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo wneud mwy i ehangu cyfranogiad yn y broses gwneud penderfyniadau a chyrff gwneud penderfyniadau er mwyn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal.

23 Mae'r Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd da i ymgynghoriadau ynghylch newidiadau i wasanaethau, drwy ei wefan a thrwy amrywiaeth o gyfryngau eraill yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'n hawdd cael gafael ar agendâu ac adroddiadau ynghylch cynigion i wneud newidiadau i wasanaethau ar wefan y Cyngor.

24 Mae'r Cyngor wedi sefydlu nifer o safleoedd Facebook a Twitter ar gyfer amrywiaeth o bynciau a gwasanaethau, gan gynnwys rhai cynigion ar gyfer gwneud newidiadau i wasanaethau. Ar wefan y Cyngor ceir tudalen ymgynghori, sef 'dweud eich dweud', sy'n egluro beth sy'n digwydd gydag ymgynghoriadau cyfredol a rhai sydd wedi dod i ben. Mae cylchlythyr trigolion Conwy, sef 'bwletin Conwy', (a ddosberthir i bob cartref)yn adrodd yn ôl ar ymarferion ymgynghori a sut y gwneir penderfyniadau ynghylch gwneud newidiadau i wasanaethau.

## Mae trefniadau monitro’r Cyngor ar gyfer asesu effaith newidiadau i wasanaethau yn effeithiol ond nid oes tryloywder wrth gofnodi arbedion yn sgil gwneud newidiadau i wasanaethau

25 Amlinellir trefniadau monitro arfaethedig y Cyngor yn yr achosion busnes cynigion gwasanaeth cychwynnol cyn y gwneir penderfyniad terfynol. Fel arfer caiff y gwaith o fonitro effaith newidiadau i wasanaethau ei gynnal wrth wneud y newid i’r gwasanaeth drwy adroddiadau rheolaidd i fwrdd moderneiddio. Mae’r trefniadau monitro hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i werthuso gwersi a ddysgwyd yn seiliedig ar y canlyniadau/effeithiau a ragwelir o’r achos busnes gwreiddiol. Mae cyfansoddiad y Cyngor yn nodi’n eang pwy sy’n gyfrifol am fonitro newidiadau i wasanaethau. Yn aml, roedd y newidiadau i wasanaethau y gwnaethom edrych arnynt yn cael eu monitro’n fewnol drwy Fwrdd Moderneiddio a oedd yn cynnwys uwch swyddogion a chynghorwyr. Mae trefniadau monitro cyhoeddus ar gyfer effaith newidiadau i wasanaethau yn dibynnu ar broses graffu’r Cyngor fel y’i tybir yn briodol gan y pwyllgorau craffu.

26 Roedd canlyniadau’r newidiadau i wasanaethau y gwnaethom edrych arnynt i gyd wedi bod yn destun craffu cyhoeddus gan y pwyllgor craffu priodol. Roedd yr holl newidiadau diweddar i wasanaethau y gwnaethom edrych arnynt yn gofyn am drefniadau monitro drwy graffu, ac weithiau adolygiad pellach gan y gwasanaeth archwilio mewnol. Mae’r trefniadau ar gyfer cynllunio newid o ran gwneud newidiadau i wasanaethau y gwnaethom edrych arnynt yn gadarn ac nid oes unrhyw dystiolaeth bod gwasanaethau i’r cyhoedd wedi dirywio yn ystod y cyfnod o newid.

27 Fodd bynnag, pan ddisgwylir i newidiadau i wasanaethau sicrhau arbedion, ni chofnodir p’un a lwyddwyd i wneud hynny ai peidio ar gam dilynol. Felly, nid yw’n glir p’un a yw swm yr arbedion a gyflawnwyd wedi deillio o arbedion arfaethedig neu arbedion amgen yn ystod y flwyddyn. Mae adroddiadau monitro cyllidebau i gynghorwyr yn adrodd ar hynt cyllidebau sylfaenol ac nid ydynt yn rhoi gwybodaeth am hynt cynlluniau arbedion.

28 Mae diffyg tryloywder wrth adrodd ar newidiadau i arbedion disgwyliedig yn gyhoeddus, oherwydd ni chaiff methiant i gyflawni arbedion ei drafod yn gyhoeddus ac ni chaiff arbedion amgen eu cymeradwyo fel mater o drefn gan bob cynghorydd neu nid ydynt yn destun yr un broses ddemocrataidd fanwl gywir â’r arbedion hynny a gymeradwyir fel rhan o’r gyllideb. Byddai adrodd ar hynt arbedion arfaethedig yn ffurfiol mewn adroddiadau monitro cyllidebau yn atgyfnerthu trefniadau ac yn cynnig mwy o dryloywder ac atebolrwydd o ran cyflawni arbedion.

## Mae’r Cyngor yn cymryd camau rhagweithiol i adolygu a gwella effeithiolrwydd ei drefniadau gwneud penderfyniadau

29 Mae’r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu yn flynyddol wrth fynd ati i lunio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae’r adolygiad hwn yn gynhwysfawr ac yn adolygu trefniadau gwneud penderfyniadau yn sgil profiad ac arfer da a argymhellir. Mae’r Cyngor hefyd yn cymryd camau cadarn i reoli risg. Mae gan y Cyngor Gofrestr Risg Gorfforaethol a gyflwynir yn rheolaidd i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, y Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu a’r Cabinet. Mae’r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn tynnu sylw at risgiau newydd o ran gwneud newidiadau i wasanaethau a ystyrir yn risg gorfforaethol a’r risgiau corfforaethol presennol hynny y mae eu graddau wedi newid ers yr asesiad diwethaf.

30 Mae’r Cyngor wedi cydnabod pwysigrwydd rheoli risg ac mae cofrestr risg gorfforaethol â chanllawiau ategol ar waith. Caiff risgiau allweddol eu nodi a’u hasesu fel critigol, mawr, cymedrol neu fach. Mae’r Cyngor wedi ardystio’r strategaeth rheoli risg a’r gofrestr risg gorfforaethol ac mae’n eu hystyried wrth ddyrannu adnoddau. Mae’r Cabinet wedi cytuno y dylai ystyried diweddariadau i’r gofrestr risg gorfforaethol bob chwe mis. Mae meysydd gwasanaeth unigol yn llunio eu cofrestri risg eu hunain, a ystyrir ganddynt ochr yn ochr â’u cynlluniau gwella gwasanaethau.

31 Ystyrir bod rheoli risg yn flaenoriaeth uchel ym mhob maes gwasanaeth a chaiff risgiau eu rheoli ar lefel prosiect a lefel gorfforaethol. Mae’r broses o fonitro sut mae pob gwasanaeth yn rheoli ei risgiau yn gyson ac mae trefniadau atebolrwydd yn glir. Caiff risgiau eu rheoli’n dda ar brosiectau unigol mawr a chânt eu rheoli’n uniongyrchol gan y pennaeth gwasanaeth neu gyfarwyddwr strategol os ystyrir bod risg gorfforaethol fwy, ychwanegol. Caiff risgiau eu neilltuo hefyd i’r aelod portffolio cabinet perthnasol a phwyllgorau craffu a throsolwg.

32 Mae’r newidiadau i wasanaethau y gwnaethom edrych arnynt i gyd yn cael eu monitro drwy gofrestri risg maes gwasanaeth a chaiff rhai o’r newidiadau i wasanaethau, fel moderneiddio llyfrgelloedd a’r risg o fethu â chyflawni targedau ailgylchu, eu cynnwys yng nghofrestr risg gorfforaethol y Cyngor. Nid oedd unrhyw un o’r newidiadau penodol i wasanaethau y gwnaethom edrych arnynt wedi gorfod cael eu huwchgyfeirio o gofrestr risg gwasanaeth i’r gofrestr risg gorfforaethol ar adeg ein hadolygiad.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru